

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn, Tachwedd 6ed, 2012

Presennol: Huw P Roberts (Cadeirydd), Huw Antur (Is gadeirydd), Ian Trow, Dewi Jones, Rhodri Jones, Arwel LL Jones, Catrin Roberts, Beryl Hughes Griffiths, Heledd Jones

Cynghorydd Alan Evans, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1110 Croesawyd pawb i'r cyfarfod, yn arbennig y sawl a oedd newydd gyrraedd nôl o Batagonia.

1111 Derbyniwyd datganiadau buddiant gan Beryl Hughes Griffiths (Mater cais cynllunio Gwernhefin), Huw Antur (cais cynllunio'r llwybr beic), Dewi Jones a Huw Antur (mater y Neuadd Bentref).

1112 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda

1113 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Hydref 2il, 2012

1114 Materion yn codi :

- 1) Mynwent yr Eglwys: Derbyniwyd gwybodaeth gan Paul Rees (trwy Beryl Hughes Griffiths a Mel Williams) am gyfrifoldebau gwahanol gyrrff:
 - a. Trosglwyddwyd y rhan helaethaf o'r fynwent i'r Cyngor Plwyf yn 1926 gan Gomisiynwyr yr Eglwys yng Nghymru. Y Cyngor Cymuned felly sydd berchen ar y rhan fwyaf o'r fynwent, ac ar y wal o gwmpas y fynwent. Bydd y gwaith o drwsio'r railings ar y wal yn cael ei wneud fel rhan o gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned.
 - b. Cyngor eglwys y plwy yn Y Bala sydd yn gyfrifol am unrhyw waith angenrheidiol i'r darn o'r fynwent sydd yn parhau ym meddiant yr Eglwys yng Nghymru.
 - c. Yr awdurdodau eglwysig sydd yn parhau i berchen yr Eglwys a'r Porth, ac yn gyfrifol am eu cyflwr. Fe drosglwyddwyd y rhain i'r Corff Cynrychioladol yn 1933.
- 2) Sedd wag ar y Cyngor Cymuned: gan nad oedd neb erbyn diwedd mis Hydref wedi manteisio ar y cyfle i alw etholiad, y cam nesaf yn yr ymgais i lenwi'r sedd wag ydyw hysbysu y bydd y Cyngor yn cyfethol, a gwahodd mynegiant o ddiddordeb. Dydd olaf mis Tachwedd yw'r dyddiad cau ar gyfer derbyn mynegiant o ddiddordeb.
- 3) Baw cŵn – derbyniwyd gwybodaeth nad oedd yr un o denantiaid Cymdeithas Tai Clwyd ar hyn o bryd yn berchen ci (er y bu ci mewn un fflat am gyfnod).

Derbyniwyd gwybodaeth gan reolwr Gwasanaethau Stryd Gwynedd y gosodwyd mwy o rybuddion am faw cŵn, yn arbennig yn ardal Maesypany, ac y lleolwyd bin baw ci ger mynedfa Maesypany. Bydd yr ardal hefyd yn derbyn mwy o ymweliadau gan warden.

Adroddodd y Cynghorydd Sir iddo yntau gynnal cyfarfod gyda Cartrefi Cymunedol Gwynedd am y mater hwn a materion eraill yn berthnasol i fflatiau Maesypany. Dywedodd pa mor bwysig ydyw i achwynwyr ffonio neu lenwi ffurflen monitro os oes problem - ni ddatgelir enw'r achwynwr. Dywedodd ymhellach fod Cyngor Gwynedd yn symud ymlaen gyda

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

Gorchmynion Rheoli Cŵn a fydd yn cyfyngu ar yr hawl i gwn fod yn bresennol mewn ardaloedd penodedig. Cynigodd Alan Evans i weithredu fel pwynt cyswllt rhwng ardalwyr a Chartrefi Cymunedol Cymru. Diolchwyd iddo am ei waith yn mynegi pryderon yr ardal.

Adroddodd y Cadeirydd i fater baw cŵn gael llawer o sylw yng nghyfarfod Llynnoedd Celyn, Tegid a Thryweryn yn ddiweddar.

- 4) Pont Talardd - derbyniwyd ymateb Cyngor Sir Gwynedd yn dweud fod y sefyllfa'n cael ei fonitro ac y bydd y gwaith yn cael ei wneud pan fydd cyllid a thywydd yn caniatáu.

1115 Gohebiaeth:

Gwynedd:

- 1) Derbyniwyd cyngor ar gadw'n ddiogel yn ystod y gaeaf
- 2) Daeth cais anffurfiol i'r Cyngor Cymuned ystyried prynu toiledau Llanuwchllyn. Cytunwyd i adael y mater ar y bwrdd ar hyn o bryd.

Parc Cenedlaethol Eryri

- 1) Cadarnhawyd cefnogaeth y Cyngor i'r cais am storfa slyri Gwernhefin
- 2) Derbyniwyd cadarnhad o ganiatâd i newidiadau wrth Ysgol O M Edwards
- 3) Derbyniwyd cadarnhad o ganiatâd i godi estyniad i sied yng Nghoed Talog
- 4) Cefnogwyd y cais i greu llwybr beic rhwng Llanuwchllyn a Glan Llyn, a mynegwyd y gobaith y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau yn fuan.
- 5) Cefnogwyd y cais i osod 3 polyn BT wrth Dalybont

Un Llais Cymru

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod arbennig Môn /Arfon/ Dwyfor/Meirionnydd 22/11/12
- 2) Derbyniwyd "Y Llais"

Arall:

- 1) Cytunwyd i gyfrannu £650 fel llynedd tuag at y neuadd bentref, ac i gyfrannu £150 yn ychwanegol eleni oherwydd y costau ychwanegol a fu wrth uwchraddio'r Neuadd. Diolchwyd i bawb sydd yng nglyn a chynnal a rhedeg y Neuadd.
- 2) Derbyniwyd gwybodaeth am Geidwaid Chwarae a chytunwyd i gynig yr ardal hon fel un a allai fanteisio o'r cynllun chwarae.
- 3) Derbyniwyd gwybodaeth am y cynnig ar gyfer ffiniau etholaethol (San Steffan).
- 4) Darllenwyd llythyr gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg.

1116 Materion ariannol:

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf
- 2) Nid oedd diffyg llynedd yng nghyfrif y fynwent felly nid oes angen gwneud cais am ad-daliad.
- 3) Cytunwyd i dalu biliau'r mis:
 - a) Costau Etholiad
 - b) Cwmni Hacker Young

- 1117 Partneriaeth Penllyn** - adroddodd y cynrychiolwyr ar Astudiaeth Dichonolrwydd a wnaethpwyd gan Gwmni TJB ar y bwriad i ddarparu gwasanaethau a chynghor gofal a lles yn yr ardal. Roedd TJB o'r farn fod y syniad yn cyfateb i bolisiau a strategaethau Cyngor

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

Gwynedd a Llywodraeth Cymru. Ond roedd diffyg addewidion pendant gan ddefnyddwyr i sicrhau rhent cyson.

Mae'r Bartneriaeth yn bwriadu llunio Cynllun Busnes a holi uwch swyddogion ac arweinwyr gwleidyddol. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn barod i ystyried safle llai o faint na'r Henblas. Bwriedir sefydlu cwmni cyfyngedig dan warant, ac mae'r Bartneriaeth hefyd yn cynnal trafodaethau gyda'r Parc Cenedlaethol am ddyfodol eu hasedau yn yr ardal.

- 1118 Pwyllgor Celyn, Tegid a Thryweryn:** Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad o'r cyfarfod. Bu symud rhai o'r Gwyniaid yn llwyddiannus. Mae gwaith yn cael ei wneud ar ddifa'r planhigyn ymwthiol Himalayan Balsam. Bu trafodaeth ar ddatganoli buddiannau. Mynegwyd cefnogaeth gadarn i'r llwybr beicio. Cafwyd trafodaeth ar y problemau a achosir gan faw cŵn.

Amser gorffen: 8.50pm